

Fforwm Mynediad Lleol Sir Gaerfyrddin - Cylch Gwaith

Teitl

Gelwir y Fforwm Mynediad Lleol (FfMLI) yn Fforwm Mynediad Lleol Sir Gaerfyrddin

Rolau a Chyfrifoldebau

Gwaith Fforwm Mynediad Lleol Sir Gaerfyrddin yw rhoi cyngor i Gyngor Sir Gaerfyrddin, Cyfoeth Naturiol Cymru ac eraill fel bo'n briodol, ynghylch gwella mynediad y cyhoedd i dir yn yr ardal at ddibenion hamdden awyr agored a mwynhau'r ardal mewn ffyrdd sy'n cymryd i ystyriaeth reolaeth y tir, a buddiannau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol ac addysgol.

Bydd Fforwm Mynediad Lleol Sir Gaerfyrddin yn cyflawni'r swyddogaeth hon drwy gynghori ar faterion sy'n arbennig o berthnasol yn lleol, gan gynnwys:

- Cefnogi gweithredu hawl mynediad y cyhoedd i gefn gwlad agored
- Gwella'r rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus
- Datblygu strategaethau hamdden a mynediad sy'n ystyried pawb.

Bydd Fforwm Mynediad Lleol Sir Gaerfyrddin yn gweithio tuag at:

- datblygu agwedd adeiladol a chynhwysol at wella mynediad i gefn gwlad at ddibenion hamdden
- parchu amgylchiadau lleol a buddiannau gwahanol wrth weithredu yn unol â chanllawiau cenedlaethol
- rhoi cyngor ar faterion o egwyddor ac arferion da
- cymryd rhan mewn trafodaeth adeiladol a cheisio cael cytundeb lle bynnag y bo modd; ac os na cheir cytundeb, gwneud natur y gwahanol safbwyntiau yn glir ac awgrymu sut y gallant gael eu datrys.

Aelodaeth

Bydd yr aelodaeth yn cynnwys:

- Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd a etholwyd yn unol â rheoliadau'r FfMLI;
- lleiafswm o 10 ac uchafswm o 20 o aelodau eraill, sy'n gorfod cynnwys cynrychiolaeth gytbwys o i) defnyddwyr mynediad hamdden a ii) tîrfeddianwyr a deiliaid, ynghyd â chynrychiolaeth o fuddiannau eraill sy'n arbennig o berthnasol i'r ardal.

Bydd yr aelodaeth:

- yn gytbwys fel nad oes un grŵp o fuddiannau yn cael lle blaenllaw yn y fforwm;
- yn cynrychioli croestoriad o fuddiannau yn yr ardal;
- yn byw neu'n gweithio yn yr ardal neu'n meddu ar wybodaeth gadarn am yr ardal.

Mae disgwyl i Aelodau:

- glynu at yr adrannau sy'n ymwneud â Fforymau Mynediad Lleol yn Neddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000, rheoliadau perthnasol a'r Cylch Gorchwyl [hwn](#)
- dangos ymrwymiad i gyrraedd nodau'r FfMLI drwy weithio'n adeiladol gydag aelodau eraill
- Gallu rhoi'r amser angenrheidiol i fynychu cyfarfodydd a rhwydweithio y tu allan i gyfarfodydd
- Bod â digon o brofiad o fynediad i gefn gwlad yn yr ardal leol i allu gwneud cyfraniad cytbwys ac adeiladol i wella'r ddarpariaeth mynediad
- Gallu gweithio gydag amrywiaeth o grwpiau buddiannau.

Gweinyddiaeth

Ysgrifenyddiaeth

Bydd gan Fforwm Mynediad Lleol Sir Gaerfyrddin Ysgrifennydd a benodwyd gan yr Awdurdod Penodi (Cyngor Sir) a fydd yn gyfrifol am:

- rhoi cymorth i Gadeirydd y Fforwm
- sicrhau bod y Fforwm wedi ei sefydlu ac yn cael ei gynnal yn unol â'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy, Rheoliadau'r FfMLI a'r Cylch Gorchwyl hwn
- rheoli unrhyw adnoddau sydd wedi eu clustnodi ar gyfer y gwaith hwn
- trefnu a hyrwyddo cyfarfodydd, gan gynnwys trefnu dosbarthu papurau a gwybodaeth i aelodau'r Fforwm ac i'r cyhoedd
- cadw cofnodion o gyfarfodydd y Fforwm sy'n cynnwys penderfyniadau, nodiadau a chymau gweithredu yn unig.

Cyfarfodydd

Cynhelir cyfarfodydd o leiaf ddwywaith y flwyddyn, ac yn fwy aml yn ôl yr angen. Bydd y FfMLI a'r Awdurdod Penodi yn cytuno ar hyn. Bydd y Cadeirydd a'r Ysgrifennydd yn cytuno ar agenda'r cyfarfodydd – er y gall unrhyw aelod gynnig eitemau i'w hystyried ar gyfer yr agenda. Bydd cyfarfodydd yn cael eu hysbysebu ymlaen llaw a'r cofnodion yn cael eu cyhoeddi.

Bydd y Fforwm yn gwahodd ymgynghorwyr / sylwedyddion i'r cyfarfod pan fo hynny'n briodol.

Bydd ymgynghorwyr / sylwedyddion yn cael cyfrannu at y drafodaeth yn ôl disgrisiwn y Cadeirydd. Bydd gan un cynrychiolydd o Cyfoeth Naturiol Cymru ac un o Lywodraeth Cymru ac unrhyw swyddog o'r Awdurdod Penodi statws sylwedydd yn awtomatig. Os bydd angen bydd pwyllgorau FfMLI yn cael eu sefydlu gan y Cadeirydd ar ôl cytuno â'r aelodau.

Bydd pob un o gyfarfodydd y FfMLI yn gyhoeddus. Fodd bynnag, gall y person sy'n llywyddu, yn dilyn cais gan aelod neu aelodau, benderfynu na ddylai'r cyhoedd fod yn bresennol mewn cyfarfod ar gyfer eitemau arbennig oherwydd preifatrwydd personol neu gyfrinachedd masnachol.